Cronfa Bensiwn Gwynedd Pension Fund

# Cynnwys


| | | Tudalen |
|---|---|---|
| 1. | **Rhagair** | 1-2 |
| 2. | **Strwythur Rheoli** | 3 |
| 3. | **Adroddiad Blynyddol Bwrdd Pensiwn Gwynedd** | 4-5 |
| 4. | **Adolygiad o'r Flwyddyn** | |
| | 4.1 Gweinyddu Pensiynau | 6-10 |
| | 4.2 Prisiad Actiwaraidd | 11 |
| | 4.3 Cydweithio Cronfeydd Pensiwn Cymru | 11 |
| | 4.4 Safon Cyfrifeg Rhyngwladol 19 (SCR19) a Safon Adrodd Ariannol 17 (SAA17) | 12 |
| 5. | **Tueddiadau Diweddar** | 13 |
| 6. | **Adroddiad Rheoli** | |
| | 6.1 Gweinyddiaeth y Cynllun | 14-16 |
| | 6.2 Sefyllfa Actiwaraidd | 17 |
| | 6.3 Trefniadau Gweinyddol a Chadw | 18-19 |
| | 6.4 Pwerau Buddsoddi | 20-21 |
| | 6.5 Rheoli Buddsoddiadau | 21 |
| | 6.6 Perfformiad Buddsoddi | 22-24 |
| | 6.7 Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi | 24 |
| | 6.8 Datganiad Strategaeth Cyllido | 25 |
| | 6.9 Fframwaith Sgiliau a Gwybodaeth | 25 |
| 6. | **Ystadegau Aelodaeth** | 26 |
| 7. | **Y Cyfrifon – yn amodol ar archwiliad** | |
| | Datganiad o Gyfrifon 2014-2015 | 27-28 |
| | Nodiadau i'r Cyfrifon 2014-2015 | 29-62 |

## 3. Adroddiad Blynyddol Bwrdd Pensiwn Gwynedd ar gyfer y flwyddyn at 30 Mehefin 2016

## 3.1 Cefndir / Cyfansoddiad

Cyfansoddwyd y Bwrdd o dan Ddeddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013 a cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ar 13 Gorffennaf 2015. Mae'r aelodaeth yn cynnwys tri aelod sydd yn cynrychioli cyflogwyr y cynllun a thri aelod sydd yn cynrychioli aelodau'r cynllun, gan gynnwys un aelod wedi ei ymddeol.

Dros y cyfnod rhwng 13 Gorffennaf 2015 a 30 Mehefin 2016 mae'r Bwrdd wedi cwrdd pedair gwaith gyda mynychiad unigolion ar gael. Mae aelodau'r Bwrdd yn cael gwahoddiad fel sylwedydd i gyfarfodydd y Pwyllgor Pensiynau ac wedi cytuno i gymryd y rôl hon yn ei dro er mwyn hyrwyddo dealltwriaeth yn ogystal â cyfathrebu. Mae'r trefniant hon yn gytbwys gyda Cadeirydd y Pwyllgor Pensiynau yn mynychu cyfarfodydd y Bwrdd fel sylwedydd. Mae'r Bwrdd wedi gofyn i'w barn ac argymhellion gael eu cyflwyno'n swyddogol i'r Pwyllgor fel bo angen.

## 3.2 Swyddogaeth y Bwrdd

Ar ran deddfwriaeth, dau brif swyddogaeth y Bwrdd Pensiwn Lleol yw cynorthwyo'r Awdurdod Gweinyddol i:

i. Sicrhau llywodraeth a gweinyddiaeth effeithiol a effeithlon o'r CPLlL
ii. Sicrhau cydymffurfiad gyda deddfwriaeth a rheoliadau perthnasol

Felly, nid corff penderfynu ond corff monitro, cynorthwyo ac adolygu yw'r Bwrdd.
Mae'r Bwrdd yn gweithredu o dan cylch gorchwyl a gytunwyd gan Cyngor Gwynedd ar 5ed Mawrth 2015. Mae'n cael cefnogaeth gan y Swyddog Cefnogi Aelodau a Craffu y Cyngor ac mae adroddiadau yn cael eu paratoi a'u cyflwyno gan swyddogion gan gynnwys y Pennaeth Cyllid, Rheolwr Buddsoddi, Rheolwr Pensiynau a'r Rheolwr Cyfathrebu.

## 3.3 Gwaith y Bwrdd

Mae sefydliad y Bwrdd wedi cyd-daro gyda cyfnod pwysau uwch ar staff uwch yr Awdurdod Gweinyddol gyda'r Awdurdod yn gorfod ymateb i'r ACLlL erbyn Chwefror 2016 ar ddogfennau ymgynghoriad ar pwlio arfaethedig ar gyfer buddsoddiadau'r CPLlL a diwygiad i reoliadau Buddsoddi a Rheolaeth Cronfydd. Felly, roedd y Bwrdd yn ymwybodol o'r angen i flaenoriaethu.

**Cynllun Gwaith**
Roedd rhaglenni ar gyfer y cyfarfodydd cyntaf yn dod allan fel roedd y Bwrdd yn derbyn gwybodaeth, darllen dogfennau statudol, adroddiadau'r Pwyllgor Pensiynau a gofynion cydymffurfio.
Roedd y cynllun gwaith a gytunwyd yn y cyfarfod cyntaf yn cynnwys:

- Adroddiad Blynyddol Cronfa Bensiwn Gwynedd
- Adroddiadau Pwyllgor Pensiynnau
- Argymhellion Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilio Mewnol
- Gweinyddiaeth y Gronfa Bensiwn a Rôl yr Uned Weinyddol.
- Y Portffolio Buddsoddiadau
- Cyfathrebu gydag aelodau a chyflogwyr
- Pwlio Buddsoddiadau

Awgrymwyd nifer o bwyntiau ynglyn a'r Portffolio Buddsoddi a cytunwyd byddai'r Bwrdd Pensiwn yn derbyn

- Data perfformiad chwarterol
- Adroddiad trosolwg perfformiad er mwyn monitro tueddiadau 3 – 5 blynydd.

Hefyd argymhellwyd bod y Pwyllgor Pensiynau yn gosod cyfnod amser penodol ar gyfer adolygiad perfformiad rheolwyr buddsoddi.

Tra'n edrych ar gyfathrebu gyda chyflogwyr a rôl yr uned weinyddiaeth codwyd rhai materion ynglyn a chyfathrebu gyda rhai partïon a'r gallu i derbyn data ar amser er mwyn darparu datganiadau ar gyfer rhai sefydliadau mewn amser. Mae'n ymddangos bod hyn wedi cael ei datrys.

Bydd y cynllun gwaith ar gyfer 2016/17 yn cynnwys:

- Datblygiadau mewn pwlio
- Buddsoddiadau
- Y Prisiad Teirblynyddol
- Archwilio a Rheoli Risg
- Hyfforddiant Bellach

Bydd angen rhywfaint o hyblygrwydd er mwyn caniatáu unrhyw adolygiadau gan y SAB neu'r Rheolydd Pensiynau ac yn benodol rôl y Byrddau mewn trefniadau pwlio.

## 3.4 Hyfforddiant

Cafodd pob Aelod o'r Bwrdd fanylion am y cynllun a'i weinyddiaeth mewn cyflwyniadau gan y Rheolwr Buddsoddi a'r Rheolwr Cyfathrebu.

Yn y cyfarfod cyntaf ym mis Gorffennaf 2015, cynhaliwyd sesiwn yn canolbwyntio ar rôl â chyfrifoldeb y Bwrdd gan Mr Stephen Leed o Investec. Ym mis Medi 2015 gwahoddwyd aelodau'r Bwrdd i Gyfarfod Blynyddol Cyffredinol y Gronfa ac roedd rhai o'r aelodau yn mynychu'r cyflwyniad ar fethodoleg y Prisiad Teirblynyddol.

Yn Hydref 2015 cwblhaodd 4 aelod o'r Bwrdd 3 diwrnod o hyfforddiant sylfaenol ymddiriedolwyr CPLIL a bydd y ddau aelod arall yn cymryd rhan yn 2016. Mae gan yr holl aelodau fynediad at y 'Pensions Toolkit' ar lein.

Roedd y Cadeirydd a chynrychiolydd aelodau yn ymuno â dau aelod o'r Pwyllgor a'r Rheolwr Pensiynau yng Nghynhadledd Ymddiriedolwyr CPLIL Cymdeithas Llywodraeth Leol Blynyddol a oedd yn cyflwyno perspectif lefel uchel ar y materion sydd yn wynebu Awdurodau Pensiwn yn y dyfodol.

## 3.5 Diolch

Mae'r Cadeirydd yn dymuno diolch i gyd-aelodau'r Bwrdd sydd wedi gwirfoddoli eu hamser i'r rolau newydd ac yn diolch yn arbennig i'r swyddogion am eu didwylledd.

# 4. Adolygiad o'r Flwyddyn

## 4.1 Gweinyddu Pensiynau

### Cyffredinol a Chyflwyniad

Croeso i fy adroddiad blynyddol cyntaf ers dod yn Reolwr Pensiynau ar 1af Ionawr 2016. Yn 2015 gwelwyd ymddeoliad dau aelod blaenllaw o staff, sef fy rhagflaenydd Gareth Jones ac ein Swyddog Cyfathrebu Susan Edwards. Hoffwn gymryd y cyfle hwn i ddiolch i'r ddau ohonynt am yr holl waith caled a diwyd, ac am yr holl gefnogaeth y maent wedi eu rhoi i staff o fewn yr adran, a chyflogwyr yn y Gronfa Bensiwn, a dymunwn y gorau iddynt yn eu hymddeoliad.

O ganlyniad i'r ymddeoliadau hynny, mae'r adran wedi mynd trwy newidiadau sylweddol o ran staffio, gyda rhai aelodau o staff profiadol yn ysgwyddo dyletswyddau newydd a rhai staff newydd yn cael eu penodi. Hoffwn eich sicrhau y byddaf yn ymdrechu i wneud yn siŵr bod yr adran yn parhau i ddarparu gwasanaeth effeithlon ac o ansawdd i holl aelodau Cronfa Gwynedd.

Mae'r Adran Bensiynau yn cyflogi 13 staff llawn amser parhaol a 2 aelod o staff rhan amser, ac yn ymgymryd â phob agwedd o weinyddu'r Gronfa o ddydd i ddydd e.e. sefydlu cofnodion i aelodau newydd; gwneud newidiadau i gofnodion aelodau fel y maent yn digwydd; cyfrifo buddion gohiriedig; trosglwyddo hawliau pensiwn i mewn ac allan o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL), a thalu buddion ar ôl ymddeoliad a marwolaeth aelodau'r cynllun. Mae'r staff pensiynau yn derbyn hyfforddiant rheolaidd er mwyn sicrhau bod eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r CPLIL yn parhau i fod yn gyfredol. Mae nifer o'n staff wedi cwblhau, neu yn y broses o gwblhau eu cymhwyster proffesiynol mewn Gweinyddu a Rheoli Pensiynau trwy'r Chartered Institute of Payroll Professional (CIPP).

Eleni gwelwyd gweinyddiaeth pensiynau yn parhau i addasu i gymhlethdod cynyddol y cynllun, o ganlyniad i newidiadau a gyflwynwyd yn 2014 i'r CPLIL drwy newid o gynllun cyflog terfynol i gynllun Cyfartaledd Cyflog Gyrfa wedi'i Adbrisio (CARE). Mae cyflwyno tâl CARE, ar y cyd â'r angen hefyd i gofnodi tâl pensiynadwy terfynol ar gyfer y gwasanaeth cyn 2014, wedi bod yn her yn wir ar gyfer cyflogwyr a gweinyddwyr y cynllun.

Ebrill 2016 yw'r dyddiad ar gyfer prisiant tair blynedd y gronfa. Pwysleisiwyd pwysigrwydd o dderbyn data glân a chywir i bob cyflogwr yn ogystal â'r angen i gwblhau a dychwelyd y data diwedd flwyddyn erbyn dim hwyrach na 29 Ebrill 2016. Mae adnoddau sylweddol wedi cael ei neilltuo i sicrhau bod y data mor gywir ag y bo modd. Cynhaliwyd fforwm cyflogwyr yn swyddfeydd Cyngor Gwynedd ar 17 Mawrth 2016, er mwyn rhoi cyfle i gyflogwyr y gronfa i drafod y broses prisiant gyda chynrychiolwyr o Hymans Robertson, Actiwari'r Gronfa.

Bydd yr amserlen ar gyfer cwblhau ffurflenni cyfraniad ac anfon datganiadau buddion blynyddol yn fwy llym ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod 2016/17. Fel y nodwyd uchod, roedd data cyfraniadau diwedd flwyddyn angen eu dychwelyd erbyn 29 Ebrill 2016, ac roedd angen anfon y datganiadau buddion blynyddol i'r aelodau dim hwyrach na 31 Awst 2016. Hoffwn ddiolch i'r holl gyflogwyr am eu hymdrechion i gydymffurfio gyda'r amserlenni hyn.

Mae'r Adran Bensiynau yn gweinyddu'r CPLIL drwy'r system gyfrifiadurol gweinyddu pensiynau 'Altair', sydd hefyd yn cynnwys rhaglen delweddu dogfennau a gweithdrefnau llif gwaith / tasg. Yn dilyn prynu'r modiwl delweddu dogfennau sy'n cyd fynd gyda'r system 'Altair' mae holl ddogfennau aelodau yn cael ei sganio a'u cadw ar y system ers mis Mawrth 2016.

**Newidiadau mewn deddfwriaeth y CPLIL yn ystod 2015/16**

Ni fu unrhyw newidiadau sylweddol i ddeddfwriaeth y CPLIL yn ystod 2015/16. Fodd bynnag, mae'r materion canlynol wedi effeithio ar weinyddiaeth y Cynllun:

**Rhyddid a Dewis**

Cyflwynodd Deddf Cynllun Pensiwn 2015 deddfwriaeth o 6 Ebrill 2015, a oedd yn dileu'r cyfyngiad ar faint o arian mae pobl sy'n talu i mewn i drefniadau pensiwn cyfraniadau diffiniedig (DC) yn gallu cymryd pan fyddant yn ymddeol. Yn ogystal, yn hytrach na phrynu blwydd-dal gyda'u pot pensiwn pan fyddant yn cyrraedd oed ymddeol, maent yn cael y dewis i dynnu eu cynilion pensiwn fel lwmp swm awdurdodedig wedi'i drethu o oedran pensiwn isafswm arferol (fel arfer oed 55).

Er nad yw hyn yn effeithio'n uniongyrchol ar y CPLIL, mae'r Llywodraeth wedi caniatáu i aelodau CPLIL sydd gyda buddion wedi eu rhewi i ddewis trosglwyddo gwerth eu pensiwn CPLIL i drefniant DC fel y gallant gael mynediad at yr arian sydd wedi ei drosglwyddo i'r trefniadau hynny. Os yw'r swm trosglwyddiad yn fwy na £30,000 rhaid i'r Gronfa sicrhau bod yr aelod wedi derbyn cyngor ariannol priodol, annibynnol a'u bod yn ymwybodol o'r risgiau sydd ynghlwm wrth drosglwyddo buddion pensiwn diogel ac wedi eu gwarantu i drefniant mwy anniogel yn ogystal â chadarnhad bod y cynllun newydd yn drefniant pensiwn wedi ei awdurdodi'n briodol cyn y gall trosglwyddiad o'r fath digwydd.

**Cynnydd Pensiwn**

Mae pensiynau yn cael eu haddasu'n flynyddol o dan y Ddeddf Cynyddu Pensiynau. Ar gyfer 2015/16 y cynnydd llawn oedd 1.2%. Mae buddion pensiwn yn statudol ac yn cael eu gwarantu gan y Senedd. Nid ydynt yn dibynnu ar berfformiad buddsoddi ond bydd yr actiwari yn ystyried pa mor dda y perfformiodd y buddsoddiadau wrth osod cyfradd cyfraniad y cyflogwr yn y prisiad actiwaraidd.

**Diwedd Contractio Allan**

Fel yr adroddwyd yn flaenorol y llynedd diddymwyd pensiwn sylfaenol y wladwriaeth ac ail bensiwn y wladwriaeth (S2P) ar 5 Ebrill, 2016 a'u disodli gan bensiwn un haen.

Ar gyfer aelodau'r CPLIL, mae hyn wedi golygu cynnydd mewn cyfraniadau Yswiriant Gwladol (YG) i'r aelodau a'u cyflogwyr gan nad yw'r ad-daliad blaenorol a ganiatawyd, i gynlluniau wedi contractio allan o S2P, yn berthnasol mwyach.

Oblygiad arall o ddiweddu'r contractio allan yw bod aelodau o'r holl gynlluniau pensiwn, a oedd gyda statws wedi contractio allan, yn cael Isafswm Pensiwn Gwarantedig (IPG), sy'n ymwneud â rhan o'u pensiwn rhwng 6 Ebrill 1978 a 5 Ebrill, 1997 lle cawsant eu contractio allan. Nid yw'r IPG yn swm ychwanegol ond yn swm y mae'n rhaid i'r Cynllun sicrhau sy'n o leiaf hafal i'r pensiwn CPLIL mae'r aelodau yn derbyn ar eu Hoedran Pensiwn y Wladwriaeth.

Er mwyn sicrhau bod cofnodion cynlluniau pensiwn yn cysoni â rhai Cyllid a Thollau EM, mae cynlluniau pensiwn sydd wedi contractio allan yn flaenorol, gan gynnwys y CPLIL, yn gorfod cynnal ymarfer i sicrhau bod y wybodaeth gywir yn cael ei gynnal ar gofnodion aelodau. Mae'n rhaid i'r ymarferiad cysoni gael ei gwblhau erbyn Rhagfyr 2018 ac wedi hynny ni fydd Cyllid a Thollau EM yn ymateb mwyach i unrhyw ymholiadau mewn perthynas â'r IPG.

Mae’r ymarfer hwn yn un heriol a bydd angen gwaith sylweddol i sicrhau nad yw'r Gronfa yn cael ei adael gyda rhwymedigaethau diangen. Felly, mae'r Gronfa ar hyn o bryd yn cyflogi tri aelod o staff ychwanegol dros dro (dau lawn amser ac un rhan amser) i ddelio'n benodol â'r cymod hwn.

**Diwygio Treth**

Mae'r blynyddoedd diwethaf wedi gweld camau mawr yn cael eu cymryd gan y Llywodraeth i leihau lwfansau di-dreth ar groniad pensiwn.

Mae'r Lwfans Blynyddol (LB), sef cyfanswm y gall unigolyn ei ddal yn eu holl gynilion pensiwn, wedi gostwng i £1.25m o 6 Ebrill 2014, ac yna wedi gostwng i £1m o 6 Ebrill 2016. Fel gyda gostyngiadau blaenorol i'r LB, mae Cyllid a Thollau EM wedi cynnig amddiffyniadau fel y gall unrhyw un a effeithir gan y gostyngiad wneud cais i ddiogelu buddiannau pensiwn a enillwyd yn flaenorol.

Yn ogystal, mae Cyllid a Thollau EM hefyd yn cyfyngu ar faint y gall y cyfanswm gwerth buddion pensiwn person gynyddu mewn blwyddyn. Mae terfyn y Lwfans Blynyddol wedi ei leihau i £40,000 gydag effaith o 1 Ebrill 2014, a arhosodd ar y lefel hon ar gyfer 2015/16 ac mae hyn wedi arwain at fwy o aelodau yn dod yn atebol i daliadau treth ar y swm dros ben a gronnwyd. Fy mwriad i ydi cynnal seminar ar y pwnc pwysig hwn tuag at ddiwedd 2016 neu ddechrau 2017.

**Cod Ymarfer Y Rheoleiddiwr Pensiynau**

Daeth Cod Ymarfer Gwasanaeth Cyhoeddus y Rheoleiddiwr Pensiynau (Llywodraethu a Gweinyddu Cynlluniau Pensiwn y Gwasanaeth Cyhoeddus) i rym ar 1 Ebrill 2015. Mae'r cod yn darparu’r Cronfeydd CPLIL gyda chrynodeb o'u dyletswyddau llywodraethu a gweinyddu allweddol a safonau ymddygiad, cadw cofnodion ac ymarfer a ddisgwylir gan y Rheoleiddiwr Pensiynau.

**Cyfathrebu**

Yn ystod 2015/16, mae'r Gronfa wedi parhau i ddatblygu'r ffordd y mae'n cyfathrebu â'i rhandaliadau. Y gweithgareddau cyfathrebu allweddol oedd:

- Dosbarthu Datganiadau Buddion Blynyddol i aelodau actif a gohiriedig.
- Cylchlythyrau wedi eu hanfon at aelodau actif, aelodau gohiriedig, ac aelodau sy'n bensiynwyr.
- Cyfarfodydd ymgynghorol blynyddol i drafod Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y Gronfa ac i gyfathrebu materion strategol a newidiadau deddfwriaethol sylweddol i'r staff gweithredol.
- Hyfforddiant a chyfarfodydd gyda staff gweithredol a chyflogwyr o ran y newidiadau sy’n effeithio’r CPLIL.
- Parhau i gydweithredu â Chronfeydd Pensiwn eraill Cymru i gynhyrchu deunydd cyfathrebu allweddol, a thrwy hynny rannu arbenigedd a chostau.
- Gwefan y Gronfa (www.cronfabensiwngwynedd.org.uk), sy'n cwmpasu pob agwedd ar y CPLIL ar gyfer ei aelodau actif, aelodau sy'n gynghorwyr, aelodau gohiriedig, pensiynwyr a'u dibynyddion.

## 4.2 Prisiad Actiwaraidd

Mae'r prisiad actiwaraidd teirblynyddol nesaf yn cael ei seilio ar sefyllfa y gronfa ar 31 Mawrth 2016. Mae'r broses yn cymryd lle yn ystod 2016/17 gyda canlyniadau ar gyfer bob cyflogwr ar gael bellach ymlaen yn 2016. Mae'r canlyniadau'n darparu sylfaen cyfraniadau cyflogwyr o 1 Ebrill 2017 i 31 Mawrth 2020.

Bydd canlyniadau darpar gyflogwyr unigol ar gael yn gynnar ym mis Tachwedd a chynhelir fforwm ar gyfer holl gyflogwyr y gronfa ar 10 Tachwedd lle bydd yr actiwari ar gael i gyflwyno'r canlyniadau ac ateb cwestiynau. Mae'r sesiwn hon yn ddefnyddiol iawn ac rydym yn argymell i bob cyflogwr ddanfon o leiaf un cynrychiolydd.

## 4.3 Cydweithio Cronfeydd Pensiwn Cymru

Ers rhai blynyddoedd erbyn hyn rydym wedi adrodd ar y cydweithio rhwng yr wyth Gronfa Bensiwn Llywodraeth Leol yng Nghymru. Dechreuodd fel prosiect i Gymru cyn gofynion diweddar y Llywodraeth i pwlio buddsoddiadau. Roedd casgliad prosiect Cymru yn datgan bod modd gwneud arbedion sylweddol ar ffioedd buddsoddi wrth ddefnyddio llai o reolwyr dros gronfeydd Cymru. Erbyn Chwefror 2016 roedd cytundeb i gefnogi gwaith pellach i:

- Ymchwilio cyfleoedd am ffioedd llai ar gyfer buddsoddiadau goddefol
- Asesiad ar y cyd ar yr achos busnes dros fframweithiau pwlio ar gyfer buddsoddiadau eraill

Cwblhawyd y broses i apwyntio un rheolwr goddefol yn Ebrill 2016 a chyflawnwyd arbedion sylweddol ar draws y cronfeydd sydd yn dal buddsoddiadau goddefol, gan gynnwys Cronfa Bensiwn Gwynedd.

Mae gwaith ar fframweithiau pwlio eraill wedi cyrraedd y cam lle mae ymgynghorwyr wedi cael eu hapwyntio i symud yr achos busnes manwl ymlaen ar ran yr wyth cronfa yng Nghymru. Yn ystod y broses dethol ymgynghorwyr, roedd yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol (DCLG) yn cynnal ymgynghoriad ar ofyniad i gronfeydd llywodraeth leol yn Lloegr a Chymru i pwlio eu buddsoddiadau er mwyn creu pyllau sydd o leiaf gwerth £25m. Danfonwyd cyflwyniad pwl mwy manwl at DCLG yn Gorffennaf 2016. Er bod pwl Cymru yn llai na £25m, mae'r Llywodraeth wedi cytuno gellir parhau fel un o'r pyllai.

Y camau nesaf fydd sefydlu model llywodraethu ar gyfer y pwl ac apwyntio contractwr i ddarparu'r cerbyd buddsoddi cydweithio (CIV) ar gyfer buddsoddiadau'r pwl.

